# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 11 RHAGFYR 2019 AM 10.30AM.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd P. Marsden - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd), ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau)

Hefyd yn bresennol:

S. O'Donnell (Prif Swyddog Treth y Cyngor ac Ardreth Annomestig), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog Dros Dro Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs B. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu).

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

**3. CABINET – 27 TACHWEDD 2019**

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 2020-2021

Fe wnaeth yr adroddiad geisio cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyfrifiad Sylfaen Treth y Cyngor arfaethedig ar gyfer 2020/21.

Rhoddodd yr adroddiad manylion am Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21 at ddibenion gosod trethi a'r ganran gasglu i'w chymhwyso.

Nododd y Cabinet fod Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'u diwygiwyd yn gosod y rheolau ar gyfer cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor. Dyma'r swm sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'w ddefnyddio wrth gyfrifo Treth y Cyngor. Cyfrifwyd bod Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau trethadwy gostyngadwy, wedi'u mynegi fel cyfwerthoedd Band D yn 62,101.79 ar gyfer 2020/21. Defnyddir y ffigur hwn gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r broses i gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw. Cynhaliwyd y gyfradd gasglu ar gyfer Treth y Cyngor yn ystod y flwyddyn ar tua 97% dros y flynyddoedd ddiwethaf; cyflawnwyd hyn yn erbyn cefndir o leihau cyllidebau a lefelau staffio. Mae'r Awdurdod yn mynd ati'n drylwyr i ddilyn holl ôl-ddyledion Treth y Cyngor sy'n golygu bod y gyfradd gasglu o 97% yn cael ei guro'n rheolaidd dros amser. Mae hyn yn creu gwarged Treth y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; ar gyfer 2018/19 gwarged Treth y Cyngor oedd £1.41m. Nodwyd bod y gwarged yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyllideb sylfaenol yr Awdurdod.

Esboniodd Swyddogion fod y gyfradd gasglu yn cael eu churo'n rheolaidd dros amser a chynigir bod y gyfradd gasglu wedi'i chyllidebu yn cael ei chynnal ar 97.50% am 2020/21. Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21 yw 62,101.79 x 97.50%, sy'n cyfateb i 60,549.25. Cyfeiriwyd yr Aelodau at baragraff 5.5. yn yr adroddiad sy'n rhestru ardaloedd Cynghorau Cymuned yn y Fwrdeistref gyda'r ffigurau cysylltiedig ar gyfer eiddo Band D. Dywedodd y Swyddogion y gall cynnydd mewn cyfwerthoedd Band D arwain at ostyngiad mewn Grant Cynnal Refeniw pan fydd cyhoeddiad y cytundeb terfynol yn cael ei wneud yn ddiweddarach y flwyddyn ariannol hon.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod, wrth nodi Sylfaen Treth y Cyngor Cymuned yn adran 5.5 yr adroddiad, am eglurhad ynglyn â'r sail resymegol a'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd Cynghorau Cymuned. Esboniodd swyddogion fod sylfaen Treth y Cyngor yn adlewyrchu'r nifer o eiddo sy'n cyfateb i Band D fesul ardal Gyngor Cymuned. Gofynnwyd am ragor o eglurhad ynglyn â'r ffigyrau a ddyranwyd ar gyfer Gelligaer a nodwyd fod yr ardal Gyngor Cymuned hon yn cynnwys Gelligaer, Hengoed, Cefn Hengoed, Penpedairheol, Ystrad Mynach a Thir-y-berth.

Holodd Aelod am y gyfradd gasglu ar ôl-ddyledion Treth y Cyngor ac os yw'r targed yn gyson. Esboniodd swyddogion fod cyfradd gasglu o 97.5% yn unol â Awdurdodau Lleol Cymru. Nodwyd fod yr awdurdod yn rhagweithiol iawn wrth adennill dyledion, yn enwedig dros tymor o 3 mlynedd, lle adenillwyd nifer o ôl-ddyledion.

Cafwyd trafodaethau ynglyn â'r goblygiadau i'r Grant Cynnal Incwm (GCI) pe bai cynnydd yng nghanran Treth y Cyngor. Esboniodd swyddogion, er y byddai cynnydd yn refeniw Treth y Cyngor yn lleihau'r GCI, byddai'r arian ychwanegol o Dreth y Cyngor yn fwy na'r gostyngiad hwn.

Holodd Aelodau am y broses Atafaelu Enillion a'i effeithiolrwydd wrth adennill ôl-ddyledion. Esboniodd swyddogion fod y broses hon yn effeithiol a dyma'r cam gweithredu cyntaf y byddem yn edrych i'w ddefnyddio ar ôl cael Gorchymyn Dyled yn y Llys.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn

cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:-

(i) gynnal cyfradd gasglu Treth y Cyngor ar 97.50% ar gyfer 2020/21;

(ii) fod Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2020/21 yn 60,549.25, gyda Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer bob ardal Cyngor Cymuned fel y'i hamlinellir ym Mharagraff 5.5.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd i'r Cabinet Flaenraglen Waith y Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd rhwng 11 Rhagfyr 2019 a 10 Mehefin 2020. Atgoffwyd yr aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio ac felly mae'n gallu newid.

Gofynnodd Aelod fod yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol yn cael ei newid ar gyfer Gwirfoddoli Corfforaethol. Cytunodd swyddogion i diweddaru hyn yn unol â hynny.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiad a manylir uchod, nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

Terfynwyd y cyfarfod am 10.42am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2020.

______________________

CADEIRYDD